OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2023 Rhif (Cy. )

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyfnewidfa Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent a Chylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *17 Gorffennaf 2023* |
| *Yn dod i rym* | *23 Gorffennaf 2023* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A465, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd yn sgil cludo llwythi anwahanadwy annormal.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A465 (Y Gerbytffordd tua'r Dwyrain rhwng Cyfnewidfa Gorllewin Glynebwy, Blaenau Gwent a Chylchfan Glanbaiden, Sir Fynwy) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2023 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 23 Gorffennaf 2023.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

(**1**) 1984 p. 27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p. 26) ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru..

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2023 No. (W. )

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A465 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Ebbw Vale West Interchange, Blaenau Gwent and Glanbaiden Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2023

| | |
|---|---|
| *Made* | *17 July 2023* |
| *Coming into force* | *23 July 2023* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the A465 trunk road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited due to the transportation of abnormal indivisible loads.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

**Title and commencement**

**1.** The title of this Order is the A465 Trunk Road (Eastbound Carriageway between Ebbw Vale West Interchange, Blaenau Gwent and Glanbaiden Roundabout, Monmouthshire) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians) Order 2023 and this Order comes into force on 23 July 2023.

**Interpretation**

**2.** In this Order—

(**1**) 1984 c. 27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c. 26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith o gludo'r llwythi anwahanadwy annormal sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr "y cyfnod cludo a chau" ("*transportation and closure period*") yw cyfnodau ysbeidiol sy'n dechrau am 10:00 o'r gloch ar 23 Gorffennaf 2023 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A465 Castell-nedd i'r Fenni.

**Gwaharddiadau**

**3.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**4.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**5.** Ni chaiff neb, yn ystod y cyfnod cludo a chau, gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn.

**Cymhwyso**

**6.** Nid yw'r gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**7.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 17 Gorffennaf 2023

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used in connection with the transportation of the abnormal indivisible loads giving rise to this Order;

"the trunk road" ("*y gefnffordd*") means the A465 Neath to Abergavenny trunk road;

"transportation and closure period" ("*y cyfnod cludo a chau*") means intermittent periods commencing at 10:00 hours on 23 July 2023 and ending when the temporary traffic signs are permanently removed.

**Prohibitions**

**3.** No person may, during the transportation and closure period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**4.** No person may, during the transportation and closure period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**5.** No pedestrian may, during the transportation and closure period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

**Application**

**6.** The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

**Duration of this Order**

**7.** The maximum duration of this Order is 18 months.

Signed on behalf of the Deputy Minister for Climate Change, acting under the authority of the Minister for Climate Change, one of the Welsh Ministers.

Dated the 17 July 2023

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
Welsh Government

## YR ATODLEN

## Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro

1. Y darn o gerbytffordd tua'r dwyrain cefnffordd yr A465 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Gorllewin Glynebwy hyd at ei thrwyniad â'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gylchfan Glanbaiden.

2. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Ystad Ddiwydiannol Rasa.

3. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yng Ngarnlydan.

4. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 ym Mhontygof.

5. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yn Saleyard.

6. Y darn o ffordd ymuno tua'r dwyrain yr A465 yng Ngilwern.

7. Y darn o gerbytffordd tua'r gorllewin cilfan cefnffordd yr A465 rhwng Cylchfan Llan-ffwyst a Chylchfan Glanbaiden.

## SCHEDULE

## Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists and Pedestrians

1. The length of the A465 eastbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the eastbound exit slip road at Ebbw Vale West Interchange to its nosing with the eastbound entry slip road at Glanbaiden Roundabout.

2. The length of the A465 eastbound entry slip road at Rassau Industrial Estate.

3. The length of the A465 eastbound entry slip road at Garnlydan.

4. The length of the A465 eastbound entry slip road at Pontygof.

5. The length of the A465 eastbound entry slip road at Saleyard.

6. The length of the A465 eastbound entry slip road at Gilwern.

7. The length of the A465 westbound carriageway of the trunk road layby between Llanfoist Roundabout and Glanbaiden Roundabout.